Save the Children
Achub y Plant

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Gwerthuso Prosiect ehangu 'Dathlu Gwahaniaeth'



## CEFNDIR

Crëwyd hyfforddiant 'Dathlu Gwahaniaeth' gan grŵp cymunedol, Voices4Bettws (V4B), Casnewydd. Fe'i datblygwyd i bontio'r bwlch rhwng y realiti sy'n wynebu teuluoedd a chanfyddiadau gweithwyr proffesiynol o anghenion plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

Dywedodd rhieni fod rhagfarn, fel rhagdybiaethau sy'n beio rhieni yn hytrach na chydnabod ADY, yn creu rhwystrau rhag cael cymorth. Mae ysgolion am weithio'n fwy effeithiol gyda rhieni ond yn wynebu heriau perthynol. Adleisir hyn gan ymchwil gyda rhieni, gweithwyr proffesiynol a phlant, sy'n dangos y gall rhieni oedi cyn trafod anghenion eu plentyn oherwydd stigma a diffyg ymddiriedaeth, tra bod gweithwyr proffesiynol hefyd yn cael trafferth adeiladu perthnasoedd cryf.

Creodd y rhaglen hyfforddi fannau tosturiol, di-stigma lle gallai sgyrsiau ystyrlon ddigwydd. Trwy ganolbwyntio ac ymhelaethu ar arbenigedd rhieni sydd â phrofiad byw, helpodd yr hyfforddiant i ddyfnhau dealltwriaeth, herio stigma, a chryfhau effeithiolrwydd a hygyrchedd cymorth ADY o fewn cymunedau.

Cafodd yr hyfforddiant hwn ei lywio a'i arwain gan rieni â phrofiad byw o dlodi ac ADY, gan sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn cael mewnwelediadau wedi'u seilio ar brofiadau go iawn teuluoedd.

Mae rhieni yn 'arbenigwyr trwy brofiad' yn eu bywydau eu hunain. Drwy roi eu profiadau wrth wraidd y rhaglen, gall gweithwyr proffesiynol ddeall beth sydd ei angen mewn gwirionedd ar blant a theuluoedd.

## PROSIECT EHANGU

Adeiladodd y prosiect hwn ar y bartneriaeth lwyddiannus gyda Voices4Bettws (V4B) yng Nghasnewydd ac ehangodd y rhaglen hyfforddi ADY/Niwroamrywiaeth arloesol hon i dair ardal ddaearyddol newydd, sef Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf.

Roedd y twf hwn yn cynnwys datblygu, addasu ac ailadrodd adnoddau V4B i gefnogi ei gynaliadwyedd hirdymor a chynyddu effaith ehangach yr hyfforddiant. Cyflawnwyd hyn trwy ddatblygu model hyfforddi'r hyfforddwr, gan hyfforddi rhieni i gyflwyno pecyn hyfforddi 'Dathlu Gwahaniaeth' yn eu hardal leol.

## GWERTHUSO'R PROSIECT



Defnyddiwyd dull cymysg i werthuso effaith y prosiect. Casglwyd data yn ystod nifer o gyfnodau, cyn i'r prosiect ddechrau, yng nghanol y prosiect ac ar ôl ei gwblhau. Dadansoddwyd data ansoddol a meintiol i nodi patrymau a themâu allweddol.

Gwahoddwyd pob rhiant a gymerodd ran i gwblhau arolygon byr ym mhob cyfnod, gan fesur eu hyder, eu gwybodaeth, eu hymdeimlad o gefnogaeth a'u profiad cyffredinol. Yn ogystal, bu sampl o rieni a gweithwyr proffesiynol a oedd yn rhan o gyflawni'r prosiect yn cymryd rhan mewn cyfweliadau anffurfiol, gan roi cyfle iddynt rannu eu mewnwelediadau personol.



## CANFYDDIADAU- Themâu allweddol

### Cryfderau

- ***Mwy o hyder a datblygu sgiliau***

Crybwyllodd y rhieni dwf sylweddol yn eu hyder, yn enwedig o ran siarad cyhoeddus, cyflwyno hyfforddiant, gwaith tîm a thynnu ar brofiad byw o niwroamrywiaeth. Roedden nhw'n teimlo ymdeimlad cynyddol o berthyn a chefnogi ei gilydd.

- ***Canlyniadau lles a grymuso cryf***

Disgrifiodd y rhieni fwy o hunangred, eu bod yn teimlo iddynt gael eu clywed a'u cefnogi, sgiliau eiriolaeth cryfach, a dealltwriaeth ddyfnach o niwroamrywiaeth. Soniodd y rhieni am well lles teuluol a helpodd hyn iddynt ailgysylltu ag ymdeimlad o bwrpas.

- ***Amgylchedd adeiladu cymunedol diogel a chefnogol***

Pwysleisiodd rhieni a gweithwyr proffesiynol werth man tosturiol, di-stigma a oedd yn galluogi ymddiriedaeth, sgyrsiau agored, ac adeiladu perthynas ystyrlon. Roedd yr amgylchedd hwn yn lleihau ynysu ac yn atgyfnerthu ymdeimlad cryf o gymuned.

- ***Effaith gadarnhaol ar gymhelliant a hunaniaeth***

Dywedodd rhieni fod eu cymhelliant i ddylanwadu ar newid mewn ysgolion wedi cael ei aildanio, ac roeddent yn teimlo eu bod yn cael eu cydnabod fel arbenigwyr yn eu profiad byw, gan fynegi balchder a hyder o'r newydd.

- **Cysondeb a chysylltiad â chymheiriaid yn cefnogi cynnydd**

Roedd sesiynau rheolaidd a chwrdd â phobl newydd yn helpu i leihau pryder ac adeiladu perthnasoedd ymddiriedus. Roedd dysgu gan gymheiriaid ac arsylwi eraill yn cyfrannu'n ymarferol at hyder.

**ADBORTH GAN BROFFESIYNOLION SY'N DERBYN Y HYFFORDDIANT**



Roedd gweithwyr proffesiynol yn hynod gadarnhaol am yr hyfforddiant, gan bwysleisio eu mwynhad a defnyddioldeb y cynnwys, ac fe wnaeth lawer dynnu sylw at werth clywed gan rieni fel 'arbenigwyr trwy brofiad'. Roeddent yn gwerthfawrogi'r gweithgareddau ymarferol a myfyriol yn arbennig, gan iddynt helpu i roi dealltwriaeth ddyfnach o niwroamrywiaeth/ADY a chryfhau empathi â phrofiadau beunyddiol plant a theuluoedd.

Disgrifiodd llawer eu bwriad i newid arferion drwy wrando mwy ar blant a rhieni, gwella cyfathrebu, a mabwysiadu dull mwy cynhwysol, sy'n seiliedig ar hawliau. Mynegodd weithwyr proffesiynol gynnydd sylweddol mewn hyder, yn enwedig o ran deall profiadau beunyddiol teuluoedd, gweithio'n barchus gyda rhieni/gofalwyr, a herio stigma sy'n ymwneud â thlodi ac ADY.

Roedd y gwelliannau a awgrymwyd yn canolbwyntio ar ymestyn hyd a/neu nifer y sesiynau ac ymgorffori data perthnasol yn lleol. Roedd galw cryf hefyd am hyfforddiant pellach ar bynciau gan gynnwys PDA, awtistiaeth/ADHD, anghenion synhwyraidd, anghenion sy’n cyd-ddigwydd, a rhwydweithiau cymorth lleol.

# CRYNODEB


Dangosodd gwerthusiad o'r prosiect batrymau clir yn nisgwyliadau, pryderon a datblygiad rhieni trwy gydol y prosiect. I ddechrau, roedd rhieni wedi'u cymell i greu newid ond yn teimlo'n ansicr, heb hyder. Pan ddechreuodd yr hyfforddiant, roedd y rhieni'n poeni am hyder, hygrededd a darparu hyfforddiant yn effeithiol, ond yn parhau i obeithio y byddai eu profiad byw yn cael ei werthfawrogi.

Dros amser, tyfodd hyder y rhieni o ddifrif, yn enwedig o ran siarad cyhoeddus, cyflwyno hyfforddiant, gwaith tîm, a defnyddio profiad byw. Fe wnaethant hefyd ddatblygu ymdeimlad cryf o berthyn a chefnogi ei gilydd.

Roedd y rhieni'n rhagweld heriau wrth ddarparu hyfforddiant i weithwyr proffesiynol, gan gynnwys syndrom y ffugiwr, rhwystrau ymarferol, ac ansicrwydd ynghylch dilyniant proffesiynol. Er gwaethaf y pryderon hyn, cawsant fwy o hyder, hunan-gred, sgiliau cryfach, a gwell cysylltiadau cymunedol.

***'Rwy'n teimlo'n llawer mwy hyderus wrth siarad dros fy mhlentyn ac wedi fy ngrymuso i gyflwyno hyfforddiant. Rwyf hefyd wedi gwneud ffrindiau hyfryd'.***

Amlygwyd gwerth amgylchedd diogel, cefnogol y prosiect a phwysleisiwyd yr angen am baratoi emosiynol, disgwyliadau clir o rôl, a chynllunio parhad. Roedd y gwelliannau a awgrymwyd yn cynnwys mwy o amser i ddatblygu cynnwys, cyflymder arafach, a sicrhau lle i feithrin perthynas.

Crybwyllodd y rhieni a gyflwynodd yr hyfforddiant hefyd lai o bryder, mwy o hyder a chymorth buddiol gan gymheiriaid. Roedden nhw'n gwerthfawrogi cyfleoedd i ddatblygu hyder, rhoi cynnig ar brofiadau newydd a chefnogi datblygiad rhieni eraill.

***'Dangoswyd bod rhieni'n bwysig wrth ddeall eu plentyn eu hunain'***

Teimlai'r rhieni eu bod yn cael eu cydnabod, eu dilysu a'u grymuso ac amlygwyd gwelliannau mewn perthnasoedd teuluol a lles, gan aildanio cymhelliant y rhieni i hyrwyddo newid cadarnhaol mewn ysgolion.

Yn benodol, roedd y rhieni'n gwerthfawrogi'r amgylchedd cefnogol, cysylltiadau â chymheiriaid, a chyfleoedd i arsylwi a dysgu oddi wrth eraill. Crybwyllwyd mentora cymheiriaid cynnar, sesiynau agosach at ei gilydd a chyfleoedd arsylwi ymysg y gwelliannau allweddol.


Magodd y rhieni hyder yn eu sgiliau a'u galluoedd eu hunain, a daethant i gydnabod eu gwerth eu hunain fel arbenigwyr o ran deall anghenion eu plant.

***Rwy'n dymuno....***

***Hyd yn oed os mai dim ond un person ydw i'n llwyddo i'w gyffwrdd i ddeall gwahaniaeth mewn ffordd gadarnhaol, yna byddaf wedi gwneud gwahaniaeth.'***

***'Y byddai pobl yn gwerthfawrogi'r holl anawsterau sy'n wynebu plant ADY bob dydd.'***

## MYFYRDODAU




- ***Angen mwy o amser paratoi a chyflwyno’n arafach***

Awgrymodd rhieni a gweithwyr proffesiynol ganiatáu mwy o amser i ddatblygu ac addasu cynnwys yr hyfforddiant ac arafu’r cyflwyno.

- ***Strwythurau cymorth cynharach a chryfach***

Amlygodd y rhieni bwysigrwydd mentora cymheiriaid cynnar, yn enwedig yn ystod cyflwyniadau hyfforddiant cychwynnol, i sicrhau eu bod yn teimlo wedi’u cefnogi’n llawn ac yn barod.

- ***Mwy o gyfleoedd ar gyfer arsylwi a chyfrifoldeb graddol***

Argymhellodd rhieni gyfleoedd i arsylwi hyfforddiant cyn ei gyflwyno eu hunain, gan helpu i fagu hyder a pharatoi ar gyfer rolau cyflwyno.

- ***Mynd i'r afael â phryderon ynghylch cyflwyno i weithwyr proffesiynol***

Roedd y rhieni’n rhagweld heriau, fel syndrom y ffugiwr, rhwystrau ymarferol a threfniadaethol, ac ansicrwydd ynghylch a fyddai gweithwyr proffesiynol yn gweithredu ynghylch y dysgu.  Mae hyn yn dangos bod angen cefnogaeth gryfach wrth drosglwyddo i gyflwyno i weithwyr proffesiynol.

- ***Eglurder rôl a chynllunio cynaliadwyedd***

Egluro disgwyliadau ynghylch ymrwymiadau amser rhieni, diffinio rolau yn gliriach, a chynllunio ar gyfer parhad ar ôl i staff a ariannwyd adael.

## ARGYMHELLION

### *1. Cryfhau cymorth cynnar*

Byddai disgwyliadau cliriach a sicrwydd cynnar yn cefnogi parodrwydd, gan fagu parodrwydd emosiynol ar ddechrau'r prosiect trwy weithgareddau meithrin hyder.

### *2. Ehangu a ffurfioli strwythurau cymorth cymheiriaid*

Roedd ymdeimlad cryf o berthyn, cefnogi ei gilydd a llai o ynysu yn ganolog i dwf rhieni. Gallai magu amser cysylltu â chymheiriaid yn ystod sesiynau a chyflwyno mentora cymheiriaid i rieni newydd wella eu parodrwydd i gyflwyno.

### *3. Sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei gyflwyno fesul cam i fagu hyder*

Darparu cyfleoedd cysgodi a chamau adeiladu cyfrifoldeb graddol. Cynnig cyfleoedd cyd-gyflwyno cyn cyflwyno'n annibynnol a chaniatáu mwy o amser i ddatblygu cynnwys a chyflwyno’n arafach ar draws sesiynau.

### *4. Cryfhau adborth proffesiynol*

Sefydlu mecanweithiau adborth gydag ysgolion a sefydliadau i ddangos effaith hyfforddiant.

### *5. Datblygu cynllun cynaliadwyedd a pharhad clir*

Sicrhau bod cynllun cynaliadwyedd yn cwmpasu cymorth a pharhad adnoddau gyda mentora parhaus a chymorth ymarferol y tu hwnt i gyfnod cychwynnol y prosiect.

## CRYNODEB TERFYNOL

Mae prosiect ehangu 'Dathlu Gwahaniaeth' wedi cael effaith gadarnhaol gref ar y rhieni sydd wedi cymryd rhan, gan roi hwb i'w hyder, eu sgiliau a'u hymdeimlad o berthyn. I ddechrau, roedd y rheini'n teimlo'n uchel eu cymhelliant ond yn ansicr, ac yna datblygasant fwy o hunan-gred, sgiliau cyfathrebu a chyflwyno cryfach, ac ymdeimlad cyffredin o gymuned wedi'i seilio ar brofiad byw. Roedden nhw'n gwerthfawrogi'r amgylchedd diogel, cefnogol a'r cyfle i fagu perthnasoedd cyson a dysgu oddi wrth ei gilydd. Mae'r prosiect hefyd wedi gwella lles teuluoedd a chryfhau sgiliau eiriolaeth rhieni, gan eu helpu i deimlo'n fwy parod i ddylanwadu ar newid mewn ysgolion a gwasanaethau.

Amlygodd y cyfranogwyr a'r gweithwyr proffesiynol heriau ymarferol ac emosiynol, gan gynnwys syndrom y ffugiwr, eglurder rôl, pwysau amser a phryderon cynaliadwyedd, a phwysleisiwyd bod angen mentora ychwanegol, cynefino strwythuredig, a mwy o amser ar gyfer paratoi ac adeiladu perthynas. Darparodd y prosiect gysylltiad cymunedol a grymuso ystyrlon, gyda llwybrau clir ar gyfer cryfhau cymorth hirdymor.

Ar y cyfan, gwnaeth y rhieni fagu mwy o hyder, meithrin sgiliau newydd a theimlo'n fwy abl i siarad dros eu plant. Er bod rhai'n teimlo'n llai clir ynglŷn â chael at wasanaethau neu gael eu clywed gan weithwyr proffesiynol, roedd hyn yn adlewyrchu mwy o ymwybyddiaeth o'r rhwystrau presennol yn hytrach na cholli hyder.

Disgrifiodd y rhieni hefyd deimlo wedi'u cefnogi mwy, yn llai ynysig, ac yn fwy parod i ddylanwadu ar newid. Yn y pen draw, fe wnaeth y prosiect roi hwb i hyder, cryfhau sgiliau ac adeiladu ymdeimlad o berthyn, gan amlygu pwysigrwydd cymorth parhaus a pherthnasoedd proffesiynol cryf.

***'Bu hwn yn gyfle gwych sydd wedi fy ngrymuso i siarad dros fy mhlentyn a phlant eraill. Mae hefyd wedi rhoi'r hyder i mi gefnogi rhieni eraill sy'n cael yr un profiad. Erbyn hyn, rwy'n benderfynol o edrych ar fwy o hyfforddiant a gobeithio cael swydd sy'n ymwneud â dysgu/pobl niwroamrywiol fel y gallaf ei dalu'n ôl a helpu eraill'.***



Hoffem ddiolch i'r holl rieni a roddodd o'u hamser i gymryd rhan yn y prosiect hwn.

I ddysgu mwy am y prosiect 'Dathlu Gwahaniaeth' ac i weld yr adroddiad llawn, ewch i: [https://www.childreninwales.org.uk/cy/gweithwyr_profesiynol/ein_gwaith/Pontio-r-Bwlch-Dathlu-Gwahaniaeth/](https://www.childreninwales.org.uk/cy/gweithwyr_profesiynol/ein_gwaith/Pontio-r-Bwlch-Dathlu-Gwahaniaeth/)